

Gwers 5 –
Pobl sy'n
gallu ein
helpu ni



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Amddiffyniad

Lefel Gradd:

| Teitl y Wers: Pobl sy'n gallu ein helpu ni

Amcan Dysgu:

- Datblygu dealltwriaeth o'r bobl sy'n ein helpu ni yn y gymuned
- Nodi rhywun sy'n ein helpu (amddiffyn) ni
- Nodi pethau a allai ein niweidio

Bydd Rhai Dysgwyr: Yn gallu nodi person sy'n eu hamddiffyn yn y gymuned a rhoi rhesymau am adegau pryd gallai fod angen eu help.

Bydd Mwyafrif y Dysgwyr: Yn gallu nodi person sy'n gallu eu helpu yn y gymuned. Nodi pethau a allai fod yn niweidiol.

Bydd yr Holl Ddysgwyr: Yn profi ac yn datblygu ymhellach eu dealltwriaeth o bobl sy'n ein helpu yn y gymuned.

Deunyddiau/Adnoddau angenrheidiol:

- Stori Gymdeithasol – “Pobl sy'n ein helpu ni”
- Pecyn lluniau – “Amddiffyniad”
- Cardiau Symbolau
- Gwrthrychau i gyfeirio atynt
- Gwisg ar gyfer chwarae rôl
- “Llyfryn Fy Hawliau i”

Cwestiynau Allweddol

- Pwy sy'n gallu cofio beth ddysgon ni yn ein gwers hawliau ddiwethaf?
- Ydy unrhyw un yn gallu cofio hawl?
- Pwy sy'n gallu meddwl am ffyrdd mae angen i ni gael ein hamddiffyn/cael ein cadw'n ddiogel?
- Pwy sy'n gallu meddwl am rywun sy'n gallu'n helpu ni?

- Sut maen nhw'n helpu ni?

Cyflwyniad:

Crynowch y wers hawliau flaenorol, gan dynnu sylw at yr agweddau allweddol i'r disgyblion.

Cyfeiriwch at y pecyn lluniau "Amddiffyniad" ac fel dosbarth, trafodwch bob erthygl mae'r lluniau'n eu cynrychioli.

Fel grŵp darllenwch y Stori Gymdeithasol "Pobl sy'n ein Helpu ni".

Trafodwch pobl a allai ofalu amdanon ni, gan dynnu sylw'n benodol at pobl sy'n berthnasol i'ch ysgol a'ch cymuned chi (yr heddlu, y frigâd dân, meddygon, athrawon ac ati).

Prif Weithgaredd:

Mae'n bwysig bod y dysgwyr yn gallu adnabod pobl sydd yno i'n helpu i deimlo'n ddiogel.

Defnyddiwch ddetholiad o ddelweddau o pobl yn eich cymuned sy'n helpu i'ch cadw chi'n ddiogel, gofynnwch i'r disgyblion ddewis pobl sy'n eu helpu nhw i deimlo'n ddiogel. Efallai bydd rhai dysgwyr yn gallu esbonio pam maen nhw wedi dewis eu cymeriad yn y gymuned.

Dyma rai syniadau posibl ar gyfer pobl a allai ein helpu ni:

Gweithwyr cymdeithasol

Athrawon dosbarth

Deintydd

Meddygon

Ymwelydd iechyd

Tasg estyn:

Byddai'n ddefnyddiol creu cysylltiad â Swyddog Cyswllt ysgolion â'r Heddlu er mwyn datblygu gwaith y wers hon ymhellach ac ymgorffori gwaith schoolbeat.org.

Parhaus: llenwch dudalen 8 o'r Llyfryn Fy Hawliau i (Tynnwch lun person sy'n helpu i'ch cadw chi'n ddiogel).

Sesiwn Lawn:

Crynowch y wers:

- Beth rydyn ni wedi'i ddysgu heddiw?
- Pwy sy'n eich helpu chi i deimlo'n ddiogel yn eich cymuned?
- All unrhyw un enwi hawl sy'n eich cadw chi'n ddiogel?

Dysgu Ychwanegol Pellach (AFL):

Gall dealltwriaeth gael ei hasesu trwy holi ac adborth llafar. Bydd hunanasesu yn rhoi hwb pellach i AFL, wrth i'r dysgwyr ddarparu rhesymau priodol a dealltwriaeth o'r hyn sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n ddiogel. Cyfeiriwch yn ôl at amcanion y wers – ydyn nhw wedi cael eu cyflawni?

Gwahaniaethu:

- Cefnogwch ddysgwyr sydd â nam ar eu clyw â iaith arwyddion priodol
- Cefnogwch ddysgwyr ag Anhwylderau Sbectwm Awtistig (ASD)/Iefel isel â PECS/lluniau cyfeiriadol

Creuwyd y gwersi a'r gweithgareddau yma gan Jonathan Whitchurch o Ysgol Heronsbridge mewn partneriaeth gyda Chomisiynydd Plant Cymru. Rhannwch y gwaith rydych chi'n ei wneud ar hawliau gyda'r Comisiynydd Plant drwy drydaru [@complantcymru](https://twitter.com/complantcymru) neu e-bostio post@complantcymru.org.uk